Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Trehopcyn
# Plymouth Road
# Trehopcyn
# Pontypridd
# CF37 2RH

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/08/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Trehopcyn wedi'i lleoli yn hen gymuned lofaol Trehopcyn, yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae'n gwasanaethu cymuned sydd â chyfuniad o eiddo wedi'i berchen yn breifat ac eiddo sydd wedi'i rentu oddi wrth gymdeithas tai. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion rhwng tair ac 11 oed ac, ar hyn o bryd, mae 125 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig, gyda nifer bychan iawn yn dod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Daw lleiafrif o ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch.

Mae hawl gan tua 33% o ddisgyblion o oedran statudol gael prydau ysgol am ddim. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gartrefi lle caiff y Gymraeg ei siarad fel mamiaith. Mae tua 3% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu lawn. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 23% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o angen addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth presennol yn Ionawr 2007.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Trehopcyn yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,880 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £6,499 a'r lleiafswm yw £2,788. Mae Ysgol Gynradd Trehopcyn yn 30ain o'r 114 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac maent yn cyflawni'n dda;
- mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau medrau llythrennedd da mewn gwersi;
- mae perfformiad disgyblion ar y lefelau uwch (Lefelau 3 a 5) yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg;
- mae safon lles disgyblion yn dda;
- mae ansawdd y rhan fwyaf o'r addysgu yn dda;
- mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymraeg yn dda; ac
- mae gweithdrefnau asesu yn effeithiol ac yn galluogi disgyblion i gael y cymorth y mae arnynt ei angen.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae tuedd gyffredinol ar i fyny yn y safonau a gyflawnwyd gan ddisgyblion dros y tair blynedd diwethaf;
- mae cynllun gwella'r ysgol yn nodi deilliannau bwriadedig clir sy'n canolbwyntio ar godi safonau a datblygu darpariaeth; ac
- mae gan yr ysgol ethos tîm cadarnhaol a pharodrwydd i yrru gwelliant a chodi safonau ymhellach.

## Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau mewn Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, gan dalu sylw penodol i wella cyflawniad bechgyn;

A2 sicrhau bod gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn cyfateb i anghenion pob dysgwr yn gyson;

A3 cryfhau rôl yr uwch dîm rheoli; a

A4 sicrhau bod y prosesau a ddatblygwyd yn ddiweddar ar olrhain disgyblion ac ymyrraeth dargedig yn cyfrannu at godi safonau disgyblion ym mhob maes.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da neu gynnydd gwell na'r disgwyl yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Trehopcyn. Mae safonau mewn gwersi ac yn llyfrau disgyblion yn dda ac, yn gyffredinol, mae disgyblion yn cyflawni ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da o ran medrau llythrennedd. Fodd bynnag, mae cynnydd mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 yn anghyson. Mewn gwersi, ac yn anffurfiol o amgylch yr ysgol, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn sgyrsiau estynedig gan ddefnyddio geirfa briodol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siaradwyr hyderus ac maent yn cyfathrebu'n glir ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae cynnydd mewn darllen yn dda. Mae gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen eirfa weledol briodol a defnyddiant ystod o strategaethau syml i ddatgodio geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion hŷn yn darllen yn rhugl, gyda'r disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni safonau uchel iawn erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Gall y disgyblion hyn ddefnyddio'u medrau darllen yn dda i wneud ymchwil ac i wella'u dysgu eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda ac yn gywir. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n hyderus at amrywiaeth eang o ddibenion. Mae llawer ohonynt yn sillafu geiriau syml yn gywir ac maent yn dechrau defnyddio atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio paragraffau ac iaith ddisgrifiadol yn dda i ysgrifennu barddoniaeth, storïau, llythyron ac adroddiadau. Ar draws yr ysgol, mae merched yn cymhwyso'u medrau darllen ac ysgrifennu'n fwy hyderus na bechgyn ar draws yr ystod lawn o bynciau.

Dros y tair blynedd diwethaf, bu tuedd gyffredinol ar i fyny yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) neu uwch mewn Saesneg a mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. O gymharu â pherfformiad ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r teulu, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella'n dda, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu tuedd gyffredinol ar i fyny mewn perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) dros y pedair blynedd diwethaf mewn Saesneg a mathemateg. Adeiladwyd ar y gwelliant hwn ymhellach yn yr asesiadau statudol diwedd cyfnod allweddol gan athrawon eleni. Fe wnaeth y safonau a arsylwyd mewn gwersi a llyfrau yn ystod yr arolygiad gadarnhau'r gwelliant pellach hwn. Fodd bynnag, er gwaethaf tueddiadau sy'n gwella, nid yw perfformiad yr ysgol, ar y lefel ddisgwyliedig, yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg eraill, yn enwedig mewn Saesneg. Dros y pum mlynedd diwethaf, fe wnaeth merched berfformio'n sylweddol well na bechgyn mewn Saesneg, yn benodol mewn darllen ac ysgrifennu ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae perfformiad uwchlaw'r lefel uwch (lefel 5+) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n dda â pherfformiad y teulu ac ysgolion tebyg eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg ar lefel briodol ac, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, gallant siarad yn hyderus am bynciau cyfarwydd yn yr ystafell ddosbarth ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn gyson yn eu dysgu ac yn cyflawni eu potensial, ac yn gyffredinol, mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill. Mae disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn cyflawni'n dda a gwnânt gynnydd da yn ôl eu targedau unigol.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ar draws yr ysgol, maent yn gwrtais i oedolion ac maent yn cyd-dynnu'n dda iawn. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn enwedig rhag cam-drin corfforol a llafar, ac maent yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn bryderus neu angen help. Hefyd, mae disgyblion yn arddangos dealltwriaeth glir o bwysigrwydd datblygu ffordd iach o fyw a sut i fynd ati.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Maent yn falch o'r rolau cyfrifol sydd ganddynt yn yr ysgol fel capteiniaid tŷ ac arweinwyr chwarae. Maent yn cyflawni eu rolau yn dda.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud penderfyniadau ynghylch beth maent yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth, a sut. Hefyd, mae disgyblion hŷn yn cael dweud eu dweud ynghylch y pynciau y maent yn eu hastudio. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn effeithiol mewn penderfyniadau ysgol gyfan drwy grwpiau a phwyllgorau amrywiol fel y cyngor chwaraeon a'r grŵp ysgolion iach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cydweithio'n dda mewn ystod dda o weithgareddau. Maent yn cefnogi ei gilydd yn eu dysgu yn effeithiol ac maent yn gweithio'n dda mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u perfformiad eu hunain.

Mae presenoldeb, sydd tua 93% hyd yn hyn eleni, uwchlaw presenoldeb mewn ysgolion tebyg. Mae pob un heblaw am ychydig iawn o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon yn y boreau. Ni chafodd unrhyw ddisgyblion eu gwahardd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod gyfoethog ac amrywiol o brofiadau dysgu trwy gwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol. Mae'r profiadau hyn yn ennyn diddordeb ac yn ysgogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn eu galluogi i adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol. Mae ystod dda o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb, yn yr ardal ac ymhellach i ffwrdd, yn gwella profiadau dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau disgyblion ar draws pob maes o'r cwricwlwm. Mae cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl ym mhob pwnc, er bod gorddefnyddio taflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus ar gyfer defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ond ni chaiff y cynlluniau hyn eu hymgorffori'n llawn mewn gwersi bob amser.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda ac mae'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae dwyieithrwydd a Chymraeg achlysurol yn nodweddion cryf ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd drwy ei phwyllgor eco a chynllunio'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol ar draws y cwricwlwm a thrwy ei chysylltiadau â gwledydd eraill.

### Addysgu: Da

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus a chaiff deilliannau dysgu eu rhannu gyda'r holl ddisgyblion. Mae gan athrawon a staff cymorth berthynas waith gadarnhaol gyda disgyblion ac mae disgwyliadau'n uchel yn gyffredinol. Mae gan yr holl staff wybodaeth dda am eu pynciau a defnyddiant amrywiaeth o weithgareddau, offer ac adnoddau'n briodol i herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Yn y gwersi a arsylwyd, roedd y rhan fwyaf o'r addysgu yn symbylu disgyblion ac, o ganlyniad, gwnânt gynnydd da. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw gweithgareddau'n cyfateb i alluoedd yr holl ddisgyblion yn ddigon da.

Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr. O ganlyniad, mae athrawon yn deall anghenion eu disgyblion ac yn nodi sut i'w symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn datblygu system olrhain ysgol gyfan ac, er ei bod yn gymharol newydd, mae eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar gynllunio. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n gyson ac, yn yr arfer orau, mae sylwadau ysgrifenedig athrawon yn helpu disgyblion i wella safon eu gwaith. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o sut i wella'u dysgu eu hunain ac maent yn dechrau cymryd rhan mewn arfarnu eu cynnydd eu hunain.

Mae rhieni'n cael adroddiadau blynyddol manwl a chânt wybodaeth dda am gyflawniadau eu plant. Mae'r rhain yn glir ac yn addysgiadol ac maent yn cynnwys targedau ar gyfer gwella.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau da ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles disgyblion, y mae bron pob un o'r disgyblion a'r rhieni'n eu gwerthfawrogi. Mae profiadau dysgu ar draws yr ysgol yn cefnogi datblygiad personol disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da a phresenoldeb yn yr ysgol yn dda trwy gymhellion fel pwyntiau i'r tŷ a gwobrau.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gynnar ac mae'n darparu rhaglenni priodol ac estynedig i fodloni eu hanghenion. Mae staff yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol ac, o ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r cymorth i'r disgyblion hyn yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ymgynghori â rhieni ac yn

eu cynnwys fwyfwy yn yr adolygiad rheolaidd o gynlluniau addysg unigol. Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio ystod eang o ymyriadau penodol yn dda i dargedu grwpiau bychain o ddisgyblion ac mae'r cynlluniau hyn yn gwella medrau sylfaenol disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn amgylchedd cynhwysol sy'n cynnig cyfle cyfartal ym mhopeth y mae'n ei ddarparu. Mae atal a dileu ymddygiad gormesol yn greiddiol i ethos yr ysgol, fel y mae datblygu goddefgarwch. Nid yw natur yr adeilad yn caniatáu mynediad llawn i'r rhai sydd ag anawsterau symudedd, ond mae cynllun hygyrchedd manwl i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn.

Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal yn dda ac maent yn bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mae ystafelloedd dosbarth o feintiau priodol a gwneir defnydd effeithiol o ystafelloedd eraill o gwmpas yr ysgol. Mae arddangosiadau o arteffactau ac arddangosiadau ar waliau o ansawdd uchel ac maent yn helpu creu amgylchedd dysgu cadarnhaol iawn. Mae darparu ardaloedd gardd ffrwythau a llysiau ym meysydd chwarae'r Cyfnod Sylfaen a'r babanod yn arbennig o nodedig. Hefyd, mae cyflenwad da o adnoddau dysgu y mae disgyblion yn eu gwerthfawrogi. Mae gan ddwy lyfrgell yr ysgol adnoddau arbennig o dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

At ei gilydd, mae arweinyddiaeth yn effeithiol yn gyffredinol. Er bod yr uwch dîm rheoli wedi cael ei gryfhau'n ddiweddar ac yn dechrau cynnig arweiniad pwrpasol, gyda ffocws da, i'w staff, nid yw ei rôl mewn arweinyddiaeth strategol wedi'i hymgorffori'n llawn eto. Mae arweinwyr wedi bod yn llwyddiannus yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a rhoi ystod eang o fentrau priodol ar waith i godi safonau. Fodd bynnag, mae'r prosesau a'r mentrau hyn yn gymharol newydd ac nid ydynt wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar godi safonau.

Mae'r pennaeth wedi gweithio'n effeithiol i ddatblygu ethos cadarnhaol lle mae gan yr holl staff ymrwymiad cadarn i weithio gyda'i gilydd i wella cyrhaeddiad. Mae cydlynwyr pwnc bellach yn cymryd mwy o ran mewn monitro safonau a chefnogi cydweithwyr. Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swydd perthnasol a chyfredol sy'n cysylltu'n dda â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac maent yn ymroddedig iawn i'r ysgol. Fel rhan o raglen drefnus a sefydledig, mae llawer o lywodraethwyr yn ymwelwyr rheolaidd â'r ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion yr ysgol. Maent yn cyflawni eu rôl fel ffrind beirniadol a chefnogol yn dda.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth godi safonau mewn llythrennedd, rhifedd a Chymraeg.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r pennaeth a’r uwch dîm rheoli wedi dechrau meithrin diwylliant o hunanarfarnu yn llwyddiannus, sy’n cynnwys yr holl staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau rheolaidd ar sail dadansoddiad o wybodaeth am berfformiad disgyblion, y cynnydd a wnânt ac effaith mentrau diweddar. Cryfder arbennig yw’r ffordd y mae staff yn adolygu eu dulliau addysgu ac yn rhannu eu harbenigedd.

Mae’r cynllun datblygu ysgol yn adlewyrchu’n gywir y meysydd i’w gwella a nodwyd drwy’r broses hunanarfarnu. Mae ganddo amcanion clir a ffyrdd o farnu llwyddiant. Caiff ei ddefnyddio’n effeithiol fel dogfen weithiol i asesu effaith mentrau, er enghraifft i wella ysgrifennu disgyblion. Caiff cost blaenoriaethau a nodir ei chyfrifo yn ofalus.

Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol sydd wedi’i seilio ar ddiwylliant ar y cyd o drafodaeth a chydweithredu proffesiynol. Mae hyn wedi cael ei gryfhau ymhellach trwy gysylltiadau ag ysgolion eraill yn lleol ac yn y teulu. Caiff yr holl staff gymorth da o ran eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Bu cynnydd da wrth fynd i’r afael â bron pob un o’r argymhellion o’r arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau da â rhieni sydd wedi cynhyrchu manteision sylweddol o ran safonau a lles gwell i lawer o ddisgyblion. Er enghraifft, mae rhaglenni ‘Dysgu fel Teulu’ wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran helpu rhieni i gefnogi dysgu cynnar eu plant.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau’r awdurdod lleol, y mae rhai ohonynt wedi’u lleoli ar y safle, er mwyn codi safonau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau disgyblion, yn enwedig wrth wella’u medrau llythrennedd.

Mae cysylltiadau ag ysgolion lleol yn gadarn ac o fudd i’w gilydd. Mae enghreifftiau o weithio effeithiol mewn partneriaeth yn cynnwys cyfarfodydd clwstwr i gytuno ar gywirdeb asesiadau a wneir adeg trosglwyddo i addysg uwchradd, a chyd-ariannu athrawes Gymraeg i godi safonau disgyblion mewn Cymraeg.

Mae cysylltiadau sy’n tyfu gydag ysgolion eraill yn y teulu, er enghraifft i archwilio ffyrdd o wella ysgrifennu disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn rheoli’r gyllideb yn dda. Caiff gwariant ei fonitro’n rheolaidd ac mae effaith gwariant yn cael ei hadolygu’n ofalus. Mae arweinwyr yn ddyfeisgar yn y ffordd y maent yn creu cyllid ychwanegol yn sgil defnyddio’r safle yn ystod y flwyddyn.

Mae gan yr athrawon wybodaeth ac arbenigedd priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol.  Caiff cynorthwywyr cymorth eu defnyddio'n feddylgar ar draws yr ysgol ac maent yn gweithio'n agos gyda staff eraill.  Mae trefniadau wedi'u rheoli'n dda i roi amser i athrawon baratoi, cynllunio ac asesu.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, yn enwedig mewn cerddoriaeth a chelf.

Mae systemau rheoli perfformiad priodol ar waith.  Mae'r trefniadau sefydlu i blant sy'n dechrau'r ysgol a'r rhai sy'n symud ymlaen i addysg uwchradd yn dda.

Mae'r ysgol wedi adolygu ei strwythur rheoli yn unol â'r cytundeb baich gwaith cenedlaethol ar 'Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith' i sicrhau bod ei system yn effeithiol.

O ystyried y safonau a'r cynnydd y mae disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd yr addysg a ddarperir, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwebaeth ar ddata perfformiad

Oherwydd nifer bychan y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, mae'n rhaid trin canlyniadau asesiadau disgyblion gyda gofal. Gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Mae perfformiad yr ysgol 2011, o gymharu â pherfformiad ei theulu o ysgolion, yn dangos ei bod yn perfformio ar lefel llawer uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. Mae'n perfformio tua'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae'n perfformio islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer Saesneg a'r dangosydd pwnc craidd.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd sy'n cyd-fynd â chyfartaledd yr awdurdod lleol. Erbyn saith oed, ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae llawer o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2), yn unol â disgwyliadau cenedlaethol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae safonau a gyrhaeddir gan ddisgyblion mewn Saesneg ac yn y dangosydd pwnc craidd yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn rhoi'r ysgol yn yr 50% uchaf o ysgolion tebyg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad ar y lefel uwch (lefel 3) ym mhob pwnc wedi gwella'n sylweddol ac mae uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru. Mae cyrhaeddiad disgyblion wedi symud i'r 25% uchaf ar gyfer ysgolion tebyg ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth a'r 50% uchaf ar gyfer ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg.

Mae asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 gan athrawon dros y tair blynedd diwethaf yn dangos tuedd gyffredinol ar i fyny ym mherfformiad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y dangosydd pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4). Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliant hwn, nid yw data perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn cymharu'n dda gyda data ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad disgyblion dros y tair blynedd diwethaf wedi rhoi'r ysgol yn 25% isaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o brydau ysgol am ddim.

Mae canlyniadau ar y lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf gan symud o 25% isaf i 50% uchaf y canlyniadau ar gyfer ysgolion sydd â lefelau tebyg o brydau ysgol am ddim. Mae deilliannau ar y lefel hon yn cymharu'n dda mewn perthynas â meincnodau cenedlaethol, lleol a meincnodau'r teulu. Mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion ac mae'r ysgol yn cyflawni'n uwch na'i safle disgwyliedig yn y grŵp.

Yn 2011 yng nghyfnod allweddol 1, fe wnaeth bechgyn berfformio'n well na merched ym mhob pwnc a pherfformio'n llawer gwell na bechgyn yn yr un teulu o ysgolion ac yn well na chyfartaledd Cymru.  Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn wrth sicrhau'r dangosydd pwnc craidd, Saesneg a mathemateg ar y lefel ddisgwyliedig.  Roedd y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2 yn well na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan.  Dros bum mlynedd, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn yn gyson ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae bron pob disgybl sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da iawn yn y ddau gyfnod allweddol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o leiaf ac mae ychydig yn gwneud yn well fyth.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Fe wnaeth chwe deg pedwar o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 lenwi'r holiadur.

At ei gilydd, roedd ymatebion dysgwyr i'r holiaduron yn gadarnhaol ac yn cyd-fynd â meincnodau cenedlaethol neu uwchlaw'r rhain o ran lefel eu boddhad ag agweddau ar yr ysgol.  Dywed yr holl ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn bryderus neu wedi cynhyrfu.  Dywed yr holl ddisgyblion bod llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff, bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach a'u bod yn gwybod beth i'w wneud a phwy i'w holi os oes angen help arnynt gyda'u gwaith.

Dywed bron pob un o'r disgyblion bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith, er bod hyn ychydig islaw'r meincnod cenedlaethol, sef 95%.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr**

Llenwodd tri deg un o rieni neu ofalwyr yr holiadur.

Mae'r holl rieni o'r farn:

- bod eu plentyn wedi cael helpu i ymgartrefu'n dda;
- bod disgwyl i'w plentyn wneud ei orau; a
- bod gwaith cartref yn briodol;

Mae bron pob un o'r rhieni:

- yn dweud bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- o'r farn bod addysgu yn dda;
- o'r farn bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol, yn cael ei gefnogi'n dda ac yn cael ei annog i gadw'n iach;

- yn gyfforddus ynghylch troi at yr ysgol gydag unrhyw awgrymiadau neu broblemau; ac
- o’r farn bod disgyblion yn cael cymorth ychwanegol priodol a’u bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn.

Roedd nifer ymatebion y rhieni i’r holiadur islaw meincnodau cenedlaethol.

Mae llawer o rieni o’r farn bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Roedd yr ymateb hwn islaw’r meincnod cenedlaethol, sef 96%.

Mae llawer o rieni o’r farn bod ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys gwibdeithiau ac ymweliadau.

Mae llawer o rieni o’r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Roedd nifer yr ymatebion ymhell islaw’r meincnod cenedlaethol, sef 96%.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sarah Hurst AY | Arolygydd Cofnodol |
| Peter Mathias | Arolygydd Tîm |
| Edward Tipper | Arolygydd Lleyg |
| Peter Curnow | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lyn Williams | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.